**Mark Drakeford AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg**
**Cabinet Secretary for Finance and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: MD/PO/97/2025

Heledd Fychan AS
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN
Heledd.Fychan@senedd.cymru

3 Mawrth 2025

Annwyl Heledd,

Deallaf gan fy nghyd-Aelod, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip, eich bod, ar 28 Ionawr a 18 Chwefror, wedi gofyn am ddatganiad ar ddull gweithredu diweddar Llywodraeth y DU ar gyfer diwygio pensiynau a sut y mae hyn yn effeithio ar Gymru.

Mae pensiynau'n parhau i fod yn fater a gedwir yn ôl, ac nid wyf o'r farn felly y byddai'n briodol i Weinidogion Cymru wneud y math o ddatganiad yr ydych chi wedi gofyn amdano. Mater i Lywodraeth y DU yw cynnal asesiadau priodol o effaith ei chynlluniau ar bob rhan o'r DU, a hynny yn rhan o'r broses o ddatblygu polisïau. Fodd bynnag, roeddwn i'n meddwl y byddai'n ddefnyddiol rhoi rhywfaint o wybodaeth am faterion sy'n berthnasol i Lywodraeth Cymru.

Y llynedd, lansiodd Llywodraeth y DU adolygiad o bensiynau i geisio hybu buddsoddi, cynyddu maint y cronfeydd buddsoddi a mynd i'r afael â gwastraff a dyblygu yn y system bensiynau. Mae'r rhain, wrth gwrs, yn amcanion y mae Llywodraeth Cymru yn eu cefnogi'n llawn.

Fy nealltwriaeth i yw bod Llywodraeth y DU wrthi'n ystyried ymatebion i'r ymgyngoriadau y mae wedi'u cynnal.

Yn rhan o'i rhaglen ar ddiwygio pensiynau, cynhaliodd Llywodraeth y DU, rhwng 14 Tachwedd a 16 Ionawr, ymgynghoriad ar becyn o ddiwygiadau arfaethedig i strwythur, buddsoddiadau a llywodraethiant y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Yn rhan o'r broses hon, cafodd Llywodraeth Cymru weld y cynigion ymlaen llaw, yn ogystal â sicrwydd bod Llywodraeth y DU yn cydnabod manteision un gronfa Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i Gymru, lle y bydd gan gronfeydd partneriaid ddiddordeb cyffredin mewn buddsoddi yn economi Cymru. Fy

nealltwriaeth i yw bod hyn hefyd yn rhan o'r adborth i'r ymgynghoriad a rannwyd gan randdeiliaid perthnasol o Gymru.

Gobeithiaf fod yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol. Rydym yn aros am ganlyniadau ymgyngoriadau Llywodraeth y DU a byddwn, wrth gwrs, yn ystyried yn ofalus sut y bydd unrhyw newidiadau yn effeithio ar Gymru.

Yn gywir,



**Mark Drakeford AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a’r Gymraeg
Cabinet Secretary for Finance and Welsh Language